**DYFODOL I'R IAITH**

Llais i'r Iaith

**Papur trafod**

**TUAG AT Y MILIWN – RÔL ADDYSG**

---

**I sylw:**

**Adran Addysg Llywodraeth Cymru**

**Is-adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru**

**Comisiynydd y Gymraeg**

**Eraill â diddordeb**

---

**Dyfodol i'r Iaith**
Mae Dyfodol i'r Iaith yn fudiad amhleidiol sy'n gweithredu er lles y Gymraeg
Ei nod yw dylanwadu drwy ddulliau cyfansoddiadol ar sylwedd a chynnwys polisïau cyhoeddus a deddfwriaeth er mwyn hybu twf a ffyniant y Gymraeg.

Am fanylion pellach cysylltwch â:
Heini Gruffudd, Cadeirydd Dyfodol i'r Iaith, heini@gruffudd.org 07983506805
Dylan Bryn Roberts, Prif Weithredwr Dyfodol i'r Iaith, dylanbryn@dyfodol.net 07989393445

---

Prif Weithredwr: Dylan Bryn Roberts Llywydd: Cynog Dafis
Cadeirydd: Heini Gruffudd Trysorydd: Huw Edwards
Aelodau'r Bwrdd: Elaine Edwards, Eifion Lloyd Jones, Wyn Thomas, Catrin Alun, Iwan Edgar, Dr Ruth Richards, Robat Gruffudd

---

Ebrill 2023

**Papur trafod**

**Crynodeb gweithredol**

Er bod nod o gael miliwn o siaradwyr gan y Llywodraeth, nid yw'r nod yn debygol o gael ei gyrraedd.

Mae mwy nag un rheswm am hyn:

i. Arafwch y Llywodraeth yn darparu ysgolion Cymraeg / addysg Gymraeg ychwanegol
ii. Diffyg athrawon
iii. Diffyg cyrsiau iaith digonol i athrawon.

Os bydd twf addysg Gymraeg presennol y Llywodraeth, sef sefydlu 23 ysgol gynradd Gymraeg a 25 dosbarth Cymraeg erbyn 2033, yn cael ei wireddu, yr amcangyfrif mwyaf optimistig yw y ceir 620,000 o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Pe bai twf ysgolion Cymraeg yn dyblu, gan gynnwys twf yn niferoedd siaradwyr Cymraeg trwy ysgolion Saesneg ac oedolion yn dysgu, yr amcangyfrif mwyaf gobeithiol yw y ceir 780,000 o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Nid ydym yma'n caniatáu am athrawon yn ymddeol yn gynnar, a chyfran o fyfyrwyr yn gweithio y tu hwnt i'r ffin.

Mae'r Llywodraeth ei hun wedi barnu y bydd angen 2,300 yn rhagor o athrawon cynradd Cymraeg a 3,100 o athrawon uwchradd Cymraeg erbyn 2050.  Nid yw'r niferoedd sy'n hyfforddi neu'n derbyn cyrsiau iaith yn agos at gyflawni'r niferoedd hyn.

Mae angen cael buddsoddiad sylweddol iawn ar fyrder i sicrhau twf addysg blynyddoedd cynnar Cymraeg ac yna fuddsoddiad sylweddol iawn i sicrhau'r gweithlu angenrheidiol ar gyfer y gwahanol sectorau addysg.

**TUAG AT Y MILIWN – RÔL ADDYSG**

Mae ffigurau Cyfrifiad 2021 yn nodi bod 538,000 yn siarad Cymraeg. Mae Arolwg Blynyddol y Boblogaeth, 2021, yn nodi bod 899,500 yn siarad Cymraeg[1]

A fydd y Llywodraeth am dderbyn yr Arolwg yn hytrach na'r Cyfrifiad, er eu bod wedi dweud mai'r Cyfrifiad yw eu sail? Gwnaed y dyhead gwreiddiol i gael miliwn o siaradwyr ar sail ffigurau'r Cyfrifiad, ac mae'r targed o filiwn o siaradwyr yn cyfleu dyhead o geisio dyblu nifer y siaradwyr.

Mae ffigurau diweddaraf yr Arolwg yn cynnwys 250,500 o blant a phobl ifanc 3 – 15 oed sy'n siarad Cymraeg. Mae'n anodd cysoni hyn â'r cyfanswm o 63,000 o ddisgyblion cynradd sydd mewn addysg Gymraeg a rhyw 100,000 o ddisgyblion 3-15 oed. Mae'r un math o wahaniaeth yn ystadegau'r Cyfrifiad. Yr awgrym amlwg yw bod rhai'n nodi gallu i ddweud rhai ymadroddion neu frawddeg fel gallu i siarad Cymraeg, yn hytrach na bod â sgiliau siarad cyflawn. I fod yn agos at ddyblu nifer y siaradwyr, bydd angen cyrraedd tua 1,800,000 o siaradwyr Cymraeg yn ôl canlyniadau'r Arolwg.

Beth bynnag am hyn, mae'r angen i gynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg a defnyddwyr yr iaith yn aros yr un. Tra bod angen i'r Llywodraeth anelu at y miliwn, mae angen sicrhau bod pob cyfle posibl yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu rhagor o siaradwyr Cymraeg.

Addysg Gymraeg yw'r unig fodel o addysg sy'n cyflwyno sgiliau dwyieithog cyflawn i'w disgyblion a derbyniwyd hyn gan y Llywodraeth. Gwna addysg Gymraeg hyn trwy gynnig addysg drochi i rai o gefndir di-Gymraeg a thrwy gynnig amgylchedd ysgol ac allgyrsiol Cymraeg i ddisgyblion. Er bod rhai ysgolion Saesneg yn llwyddo i ddenu rhai disgyblion i fod yn siaradwyr Cymraeg, cymharol fychan yw eu nifer, ac mae ysgolion a enwir yn rhai dwyieithog yn gallu syrthio'n brin o gyflwyno sgiliau dwyieithog cyflawn i ddisgyblion.

**Sut mae mynd ati i gynyddu nifer y siaradwyr newydd a ddaw trwy'r system addysg? Dyma rai ystyriaethau:**

1) Mae angen gwneud y defnydd gorau o adnoddau prin
2) Mae nifer cyfyngedig o athrawon yn cael eu hyfforddi
3) Mae twf ysgolion Cymraeg wedi bod yn gymharol gyson, ond yn rhy araf, a nifer y disgyblion wedi bod yn statig ers deng mlynedd. Gweler Atodiad 1
4) Mae modd cynyddu addysg Gymraeg trwy gyfeirio adnoddau cyfalaf a dynol sydd ar gael i'r cyfeiriad yma.
5) Mae trochi ieithyddol yn y blynyddoedd cynnar wedi profi i fod yn ddull llwyddiannus o gyflwyno iaith yng Nghymru a sawl gwlad arall ac mae angen rhoi'r pwyslais ar hyn, gan arwain at addysg Gymraeg
6) Mae rhaid lledaenu'n eang neges am fanteision bod yn ddwyieithog, fel a wneir gan Fudiad Meithrin (gw. Atodiad 4).
7) Nid yw'n realistig, yn wyneb diffyg sgiliau iaith athrawon ac amryfal resymau eraill, newid holl ysgolion Cymru'n rhai dwyieithog neu Gymraeg.

[1] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/speak-welsh-by-age-sex

**Sut mae sicrhau twf addysg Gymraeg?**

Yn dilyn o hyn, mae angen polisi realistig i ddatblygu sgiliau Cymraeg disgyblion mewn ysgolion.

1. Mae angen rhoi'r pwyslais uchaf i addysg gyn-ysgol ac addysg feithrin fel y dull mwyaf effeithiol o gyflwyno iaith:
   i. Buddsoddiad sylweddol ychwanegol i Fudiad Meithrin
   ii. Datblygu sgiliau iaith staff cylchoedd chwarae
2. Mae angen i addysg gynradd Gymraeg fod ar gael yn hwylus i nifer cynyddol o ddisgyblion
3. Mae angen bod yn uchelgeisiol wrth gynyddu addysg Gymraeg
4. Mewn ysgolion Saesneg, mae angen canolbwyntio caffael iaith trwy wersi a gweithgareddau cyfrwng y Gymraeg
5. Mae angen rhaglen eang o hyrwyddo manteision dwyieithrwydd ymysg rhieni a darpar rieni er mwyn denu rhagor i addysg drochi[2]
   i. Siroedd i nodi manteision dwyieithrwydd ar gyhoeddiadau a gwefannau
   ii. Rhieni i gael gwybodaeth am fanteision dwyieithrwydd mewn dosbarthiadau cyn-geni ac mewn ysbytai
   iii. Cydweithio gyda Dysgu Cymraeg i annog rhieni i ddysgu a siarad Cymraeg
   iv. Y Llywodraeth ac awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg Gymraeg yn helaeth trwy bob cyfrwng
6. Mae angen i'r Llywodraeth a chynghorau sir roi blaenoriaeth i hyrwyddo addysg Gymraeg
7. Mae angen sicrhau bod athrawon yn addysgu Hanes Cymru a Hanes y Gymraeg yn effeithiol, fel rhan sylfaenol o gwricwlwm ysgolion er mwyn i ddisgyblion Cymru gael syniad o le canolog y Gymraeg yn eu hunaniaeth.

**Nodwn:**

- Chwefror 2020: Y Llywodraeth yn rhoi £3 miliwn i Fudiad Meithrin i ehangu darpariaeth, gan agor 150 o gylchoedd ychwanegol erbyn 2027
- Gwenllian Lansdown Davies yn rhybuddio na all Mudiad Meithrin wireddu'r nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg ar eu pennau'u hunain[3]
- Chwefror 2022: Ymateb y Llywodraeth i argymhellion Estyn ar addysg drochi Gymraeg: "Cytunwn fod angen datblygu mwy o adnoddau, darpariaeth a phartneriaethau i gefnogi addysg drochi effeithiol." Hefyd "rydym yn ymrwymo i sefydlu rhwydwaith i gefnogi addysg drochi drwy gyfrwng y Gymraeg, yn seiliedig ar ymchwil a thystiolaeth."[4]
- Yn 2017, ar sail *Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr,* targed y Llywodraeth oedd cael 30% o blant 7 oed mewn addysg Gymraeg erbyn 2031, a 40% erbyn 2050
- I gyflawni hyn byddai angen hyfforddi 1,000 yn rhagor o athrawon cynradd cyfrwng Cymraeg erbyn 2031 a 1,300 arall, i gyrraedd cyfanswm o 5,200 erbyn 2050. Gweler *Cymraeg 2050.*[5]
- Dywed *Cymraeg 2050* bod angen hyfforddi 1,800 yn rhagor o athrawon uwchradd Cymraeg a chyfrwng Cymraeg erbyn 2031 a 1,300 arall erbyn 2050.
- Gorffennaf 2022: CSGAU yn ymrwymo i sefydlu 23 ysgol gynradd Gymraeg newydd ac ehangu 25 ysgol Gymraeg dros y deng mlynedd nesaf, gyda chronfa o £76 miliwn[6]

---

[2] (gwelir hyn ar wefan Dinas Caerdydd: https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Schools-and-learning/Schools/welsh-medium-education/Pages/default.aspx )
[3] Mudiad Meithrin: 'Angen buddsoddi i sicrhau'r miliwn' - BBC Cymru Fyw
[4] Addysg Drochi Cymraeg: ymateb y Llywodraeth [HTML] | LLYW.CYMRU
[5] *Cymraeg 2050,* t.12. Gw. hefyd Cynllun i gynyddu addysg Gymraeg dros 30% erbyn 2031 - BBC Cymru Fyw
[6] 'Gormod o rwystrau o hyd i addysg Gymraeg' - Jeremy Miles - BBC Cymru Fyw

Mae Dyfodol i'r Iaith yn cefnogi'r datblygiadau hyn, ond yn bryderus na fydd targedau'n cael eu cyrraedd. Methodd y Llywodraeth â chyrraedd sawl targed yn y gorffennol.[7]

Os datblygir yr ysgolion hyn ar hyd y deng mlynedd nesaf, dyweder erbyn 2033, gwelir eu ffrwyth llawn erbyn 2040.

Mae yng Nghymru o gwmpas 400 o ysgolion cynradd Cymraeg yn dysgu o gwmpas 64,000 o ddisgyblion. Os gwireddir cynlluniau'r Llywodraeth a'r siroedd, gyda 48 o ysgolion / unedau newydd erbyn 2033, ac o dderbyn y bydd 5 ysgol/dosbarth ychwanegol y flwyddyn yn cael eu sefydlu ar ôl 2033, mae modd barnu y gall fod tua 14,000 ychwanegol mewn addysg Gymraeg, sef tua 78,000 erbyn 2040. **A derbyn y bydd tua 275,000 o blant mewn ysgolion cynradd, bydd canran y plant cynradd mewn addysg Gymraeg o gwmpas 28% erbyn 2040.**

Mae pob rhagolwg y bydd targed y Llywodraeth o gael 30% mewn addysg Gymraeg erbyn 2030 o leiaf ddeng mlynedd yn hwyr, a bydd hyn yn ei gwneud yn anodd iawn cyrraedd 40% mewn addysg drochi erbyn 2050.

**Cwestiynau allweddol:**

**Staffio:**

Pa gynlluniau sydd i gynyddu nifer athrawon cynradd cyfrwng Cymraeg o 1,000 (i gyrraedd 3,900) erbyn 2031?

Pa gynlluniau fydd i gynyddu nifer athrawon uwchradd Cymraeg a chyfrwng Cymraeg o 1,800 erbyn 2031?

- nifer darpar athrawon ar gyrsiau hyfforddi?
- nifer athrawon sy'n ymddeol / ymadael?
- nifer yr athrawon sy'n mynychu cyrsiau dysgu Cymraeg / gloywi iaith dwys?
- nifer yr athrawon sy'n trosglwyddo o'r system Saesneg i'r system Gymraeg?
- nifer yr athrawon sy'n trosglwyddo o'r system gynradd i'r system uwchradd Gymraeg?

Pa gynlluniau sydd i greu cwrs trochi i fyfyrwyr am gyfnod estynedig cyn gwir gychwyn y Cwrs AGA? Gallai hyn yn yr hir dymor fod yn well buddsoddiad ariannol na sicrhau isafswm o 35 awr o Gymraeg dros gyfnod eu cwrs AGA. Gellid parhau gyda'r 35 awr ar ôl y cyfnod trochi.

**Cynyddu niferoedd:**

Beth yw'r rhagolwg am y cynnydd yn nifer disgyblion mewn ysgolion Cymraeg erbyn 2033 yn sgil y CSGAU?

Beth yw'r rhagolwg ar gyfer nifer disgyblion mewn canolfannau hwyrddyfodiaid?

---

[7] Gosododd *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010, darged o gael 25% o blant saith oed mewn Addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2015, a 30% erbyn 2020 (t.21). Yn 2019 roedd 21% o blant saith oed yn cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf). Erbyn 2021/22 roedd 23.8% o ddisgyblion cynradd mewn Addysg Gymraeg https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Welsh-Language/pupils-by-localauthorityregion-welshmediumtype

Yn wyneb methiant arbrawf yn sgil Cynllun Gittins i sefydlu ysgolion dwyieithog/cymysgiaith i greu disgyblion trylwyr ddwyieithog, pa brawf sydd bod sefydlu ysgol gymysgiaith yn hytrach na Chymraeg yn mynd i lwyddo yn y nod yma?

A oes rhagolwg am nifer y disgyblion fydd erbyn 16 oed mewn ysgolion Saesneg neu ddwyieithog â gwybodaeth o'r Gymraeg yn cyfateb i lefel B2 / C2 ALTE (sef yr hyn a ddisgwylir mewn ysgolion Cymraeg)?

Pa niferoedd o siaradwyr newydd a ddisgwylir trwy gymathu mewnddyfodiaid?

**Targedau i gynyddu addysg drochi**

Mae angen ystyried datblygu dulliau newydd o sefydlu ysgolion Cymraeg yn ogystal â'r datblygiadau presennol. Dyma awgrym, hyd at 2033:

i. Mae angen gosod targedau manwl bob pum mlynedd yn sirol a chenedlaethol i sicrhau twf cylchoedd meithrin Cymraeg, sy'n sail i addysg drochi.
ii. Llenwi ysgolion Cymraeg presennol:
Mewn deng mlynedd: 10 dosbarth
iii. Pob ysgol gynradd newydd i fod yn ysgol Gymraeg oni bai bod rheswm digonol i beidio
Mewn 10 mlynedd: 10 ysgol / dosbarth
iv. Siroedd Gwynedd, Môn, Ceredigion a Chaerfyrddin, a rhannau o Gonwy, Dinbych, Sir Benfro, Powys a CNPT i drosi ysgolion cynradd yn ysgolion Cymraeg
Mewn 10 mlynedd: 20 ysgol / dosbarth
v. Datblygu cynllun i drosi ysgolion Saesneg yn ysgolion Cymraeg dros 7 mlynedd mewn ardaloedd trefol (e.e. trosi 1 ysgol i fod yn Gymraeg newydd lle mae 4 ysgol Saesneg)
Mewn 10 mlynedd: 10 ysgol / dosbarth
vi. Sefydlu ysgolion Cymraeg newydd (cynllun y Llywodraeth)
Mewn 10 mlynedd: 23 ysgol
vii. Ehangu ysgolion Cymraeg presennol (cynllun y Llywodraeth)
Mewn 10 mlynedd: 25 dosbarth

Bras gyfanswm ysgolion ac ehangiadau o fewn deng mlynedd: 100

Bydd cael 100 o unedau newydd erbyn 2033 yn rhoi tua 28,000 o ddisgyblion newydd, a chyfanswm o ryw 92,000 mewn addysg Gymraeg, yn ganran o 33% erbyn 2040.

Golyga hyn fod angen sefydlu rhyw 10 ysgol/dosbarth y flwyddyn fel lleiafswm yn ystod y degawd yma er mwyn dod yn agos at gyrraedd targedau'r Llywodraeth.

Gweler Atodiad 2

**Tuag at y miliwn:**

O fwrw ymlaen niferoedd siaradwyr Cymraeg Cyfrifiad 2021 i 2050, ceir y bydd tua **260,000** o siaradwyr Cymraeg 30 oed a hŷn. Gweler Atodiad 3

Oes modd cael 750,000 arall erbyn 2050?

O dderbyn twf presennol addysg Gymraeg yn ôl rhagolygon y Llywodraeth, bydd 48 ysgol/dosbarth ychwanegol o hyn tan 2033, sef tua 5 y flwyddyn. Os bydd y twf yma'n parhau hyd at 2050, gall fod 87,000 mewn addysg gynradd Cymraeg erbyn 2050, sef 31%.[8]

Os caiff y twf ei ddyblu a sefydlu 10 ysgol/dosbarth ychwanegol y flwyddyn, gall fod 110,000 mewn addysg gynradd Gymraeg erbyn 2050: twf o 47,000 dros 28 mlynedd, sef 40%.

Dyma amcangyfrif o ffigurau gobeithiol erbyn 2050:

| | | |
|---|---|---|
| Trwy deuluoedd Cymraeg, addysg drochi hyd at 5 oed | 5,000 | |
| **Oed 5 i 11:** | | |
| Disgyblion 7 mlynedd o addysg gynradd gan gynnwys cynnydd o 10 ysgol / dosbarth Cymraeg y flwyddyn | 110,000 | |
| **Oed 12 i 29** | | |
| 18 blynedd arall o ddisgyblion a fu mewn addysg gynradd Gymraeg | 205,000 | |
| Cyfanswm addysg | | **320,000** |
| Cyfanswm rhagolygon yn ôl twf dwywaith uwch na chynllun y Llywodraeth | | **580,000** |

Cyfraniadau eraill (mae'r ffigurau hyn yn anfanwl, ond tybiwn y gallent fod yn ffigurau realistig):

| | | |
|---|---|---|
| Rhai mewn ysgolion Saesneg | 20,000 | |
| Dysgu'r Gymraeg yn oedolion | 100,000: tua 4,000 newydd y flwyddyn | |
| Dysgu'r Gymraeg mewn colegau | 30,000 | |
| Sefydlu canolfannau hwyrddyfodiaid | 50,000 : 2,000 newydd y flwyddyn | |
| Cyfanswm | 200,00 | **780,000** |

Mae hyn yn brin o'r miliwn, ond mae'n arwydd o faint y dasg sy'n ein hwynebu. Nid ar chwarae bach y dyblir nifer siaradwyr Cymraeg.

I gyrraedd twf sylweddol cylchoedd chwarae Cymraeg, dosbarthiadau meithrin Cymraeg, ac ysgolion Cymraeg, yn ychwanegol at gychwyn cyflwyno pynciau trwy'r Gymraeg mewn ysgolion Saesneg, mae goblygiadau staffio sylweddol iawn. Mae angen hyfforddi staff blynyddoedd cynnar a rhoi hyfforddiant iaith digonol i'r rhain. Mae gan Fudiad Meithrin tua 1,500 o staff mewn cylchoedd meithrin. I sicrhau'r math o dwf a ragwelwn, bydd angen i'r nifer yma fod yn nes at 5,000.

A derbyn bod angen 25 i 30 o staff (dysgu a chynorthwyol) mewn ysgol gynradd o ryw 250 o blant, bydd angen 2,500 o staff ychwanegol ar hyd y 25 mlynedd nesaf i gyrraedd twf o 100 o ysgolion

[8] Cyfrifwyd ar y sail ganlynol: Cynnydd dros 7 mlynedd, gan gychwyn 5 ysgol/dosbarth y flwyddyn, gyda chyfartaledd o 25 disgybl yr un: cynnydd o 3500 bob 7 mlynedd: tua 23,000 dros 28 mlynedd.

Cymraeg. O ystyried niferoedd staff sy'n gadael y proffesiwn ac yn ymddeol, ein hamcan yw bod angen paratoi tua 3,000 o staff sy'n gallu addysgu trwy'r Gymraeg.

Nid ydym yma wedi ystyried yn llawn gyfradd yr allfudo o Gymru yn sgil mynd i brifysgolion yn Lloegr a chwilio am swyddi y tu hwnt i'r ffin.

Miliwn neu beidio, i gael twf a fydd yn gwneud gwahaniaeth, mae angen tua 100 o ysgolion/dosbarthiadau Cymraeg newydd cyn neu erbyn 2033. Golyga hyn bod angen dyblu cynlluniau'r Llywodraeth o leiaf. Sail y rhain fydd cylchoedd chwarae a dosbarthiadau meithrin.

Mae strategaeth bresennol y Llywodraeth yn debygol o fethu'r targed o filiwn, o gryn bellter. Os bydd sgiliau y twf mewn siaradwyr Cymraeg trwy'r system addysg Gymraeg yn parhau yn y boblogaeth, a chaniatáu am rai colledion, bydd y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg o gwmpas 620,000 erbyn 2050.

Os caiff twf addysg Gymraeg ei ddyblu, mae'n bosibl cyrraedd o gwmpas 750,000 o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Atodiad 1**

(https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Welsh-Language/pupils-by-localauthorityregion-welshmediumtype )

Nifer disgyblion mewn ysgolion cynradd Cymraeg : dwy ffrwd : cyfanswm

| | Cymraeg | dwy ffrwd | cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 2021-22 | 55,991 | 7,446 | 63,437 |
| 2020-21 | 56,810 | 7,905 | 64,715 |
| 2019-20 | 56,625 | 7,949 | 64,574 |
| 2018-19 | 57,062 | 8,152 | 65,214 |
| 2017-18 | 57,486 | 8,099 | 65.585 |
| 2016-17 | 57,332 | 8,702 | 66,034 |
| 2015-16 | 56,946 | 8,570 | 65.516 |
| 2014-15 | 56,064 | 8,614 | 64,678 |
| 2013-14 | 54,915 | 8,453 | 63,368 |
| 2012-13 | 53,172 | 9,040 | 62,212 |

**Atodiad 2**

Mesurwyd y nifer disgyblion yn ôl hyn:

| | |
|---|---|
| Nifer ysgolion Cymraeg | 400 |
| Nifer disgyblion | 64,000 |
| Cyfartaledd disgyblion mewn ysgol | 160 |
| Cyfartaledd bras disgyblion y flwyddyn ysgol | 25 |
| Nifer disgyblion mewn<br>48 ysgol/dosbarth dros 7 mlynedd:<br>5 ychwanegol bob blwyddyn | 3,500 |
| 100 ysgol/dosbarth dros 7 mlynedd | 7,000 |

**Atodiad 3**

Rhagamcan ffigurau Cyfrifiad 2021 i 2050

Ffigurau cyfrifiad 2021:

| | 2021 | erbyn 2050 | |
|---|---|---|---|
| 75 neu hŷn | 45,800 | 102 neu hŷn | 0 |
| 65 i 74 | 45,900 | 92 i 102 | 500 |
| 45 i 64 | 107,300 | 72 i 91 | 75,000 |
| 20 i 44 | 153,800 | 47 i 71 | 125,000 (caniatáu peth allfudo) |
| 16 i 19 | 43,700 | 43 i 46 | 40,000 |
| 3 i 15 | 46,600 | | |
| Mewn gwirionedd | 23,300 | 30 i 42 | 20,000 (caniatáu peth colled) |

Cyfanswm y rhai sydd mewn addysg / hŷn nag oed addysg ar hyn o bryd: **260,500**

**Atodiad 4**

O wefan Mudiad Meithrin

We are passionate about giving every child the opportunity to play, learn and grow through the medium of Welsh, and we believe that every child in Wales has the right to do so.

As a non-Welsh speaking parent, making the decision to introduce the Welsh language to your child may not be an easy decision, but we believe that children benefit from being bilingual and we are here to hold your hand, to answer any questions, and to make your journey a positive one that you won't regret.

In this section you can find information about our **Cymraeg for Kids** groups, **Cylchoedd Ti a Fi** (Baby and toddler groups), **Cylchoedd Meithrin** (Welsh-medium playgroups) and the fun play activities they can provide for you and your child.

You can also **search for a Welsh-medium Childcare** in your area by using our interactive map.

**Cyfeiriadau**


Addysg Drochi Cymraeg: ymateb y Llywodraeth [HTML] | LLYW.CYMRU

*Cymraeg 2050 miliwn o siaradwyr,* Llywodraeth Cymru, 2017.

Cynllun i gynyddu addysg Gymraeg dros 30% erbyn 2031 - BBC Cymru Fyw

'Gormod o rwystrau o hyd i addysg Gymraeg' - Jeremy Miles - BBC Cymru Fyw

https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Welsh-Language/pupils-by-localauthorityregion-welshmediumtype

https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/speak-welsh-by-age-sex

https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Schools-and-learning/Schools/welsh-medium-education/Pages/default.aspx )

Mudiad Meithrin: 'Angen buddsoddi i sicrhau'r miliwn' - BBC Cymru Fyw

*Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010